**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

7 Ionawr 2019

Annwyl Mr Ramsay

Gweithredu Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 4 Rhagfyr 2018. Rwy'n falch iawn bod yr Aelodau'n gytûn bod fy ymateb cynharach ar 31 Hydref 2018 yn gadarnhaol.

Roedd eich llythyr yn nodi bod gan y Pwyllgor nifer o bryderon o hyd ynghylch yr adolygiad o'r fformiwla ariannu, ac y byddech yn croesawu eglurhad pellach.

- Amserlen

  Fel y nodwyd yn y dystiolaeth i sesiwn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 16 Gorffennaf 2018, disgwylir i'r fformiwla ariannu ddiwygiedig fod yn barod erbyn rownd ariannu 2020-21. I gyd-fynd â chylch llythyrau Dyraniadau Blynyddol Llywodraeth Cymru, bydd angen i'r fformiwla fod yn barod, wedi'i phrofi a'i chadarnhau erbyn hydref 2019.

- Cwmpas yr Adolygiad

  Roedd fy llythyr cynharach ar 31 Hydref yn cadarnhau bod hwn yn adolygiad llawn a fydd yn arwain at ddisodli'r fformiwla bresennol, sef fformiwla anghenion uniongyrchol "Townsend", â fformiwla ariannu newydd. Y bwriad o'r cychwyn, fel y trefniadau ar gyfer y fformiwla bresennol, oedd y byddai'r fformiwla'n cael ei defnyddio i ddosbarthu cyllid twf ychwanegol rhwng byrddau iechyd. Yn unol â hynny, bydd y gwaith o adolygu'r fformiwla yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar ddatblygu a gweithredu fformiwla i ddisodli'r fformiwla bresennol i dosbarthu cyllid twf ychwanegol rhwng byrddau iechyd.

Mae'n werth nodi'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer dyrannu refeniw byrddau iechyd 2019-20 i helpu i weithredu *Cymru Iachach.* Yn ogystal â chyllid craidd ychwanegol i dalu costau twf na ellir eu hosgoi, rydym wedi darparu cyfanswm o £60 miliwn o gyllid twf ychwanegol i fyrddau iechyd i symud ymlaen i drawsnewid gwasanaethau lleol, a £30 miliwn arall i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i helpu i ddatblygu gwasanaethau integredig. Mae hyn ar ben y £30 miliwn a ddyrannwyd yn uniongyrchol i awdurdodau lleol i gefnogi gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy. Mae dyraniad refeniw byrddau iechyd 2019-20 yn cynnwys cyfanswm o £187 miliwn o gyllid ychwanegol a ddosbarthwyd drwy'r fformiwla bresennol, sef fformiwla anghenion uniongyrchol "Townsend".

Roedd adroddiad y Pwyllgor ym mis Chwefror 2013 yn iawn i godi pryderon ynghylch yr ymgodiad cyffredinol union yr un fath a ddarparwyd i bump o'r saith bwrdd iechyd. Ers yr adroddiad hwnnw, defnyddiwyd fformiwla i ddosbarthu'r ymgodiad cyffredinol mewn ffordd fwy priodol i'r byrddau iechyd.

Datblygu fformiwla i ddosbarthu cyllid twf ychwanegol yw'r cam cyntaf hanfodol yn y rhaglen waith adolygu hon. Pan fydd y cam cyntaf hwn wedi'i gwblhau, bydd y gwaith dilynol yn edrych ar y materion ehangach sy'n cael eu codi yn eich llythyr, ynghylch tegwch a phriodoldeb cyfanswm y dyraniadau i bob bwrdd iechyd. Bydd hyn nid yn unig yn cynnwys cyfanswm y dyraniadau yn ôl disgresiwn, ond hefyd y dyraniadau amrywiol a glustnodwyd.

Dylid nodi, er bod fformiwlâu wedi'u defnyddio dros y blynyddoedd ar gyfer elfennau o'r dyraniadau Ysbytai a Gwasanaethau Iechyd Cymunedol a Phresgripsiynu yn ôl disgresiwn, nad oes unrhyw fformiwla wedi'i defnyddio erioed ar gyfer dyraniadau wedi'u clustnodi megis:

- Dyraniadau Refeniw wedi'u Clustnodi ar gyfer Gofal Iechyd a Gwasanaethau Ysbyty
- Dyraniad Refeniw y Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol
- Dyraniad Refeniw y Contract Fferylliaeth Gymunedol
- Dyraniad Refeniw y Contract Deintyddol

Roedd y llythyr cynharach ar 31 Hydref yn dangos, ar ôl datblygu'r fformiwla yn llawn, y bydd rhaid ystyried yr holl opsiynau gweithredu posib i symud adnoddau yn unol â thargedau cyfrannau'r fformiwla gan edrych ar yr angen i gynnal gwasanaethau o ansawdd ar draws Cymru. Bydd angen caniatáu i fyrddau iechyd gynllunio a rheoli unrhyw newidiadau dilynol i adnoddau, dros amser, drwy eu cynlluniau integredig. Wrth symud ymlaen â rhaglen waith cam 2, mae'n hanfodol sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gweithredu'n gyflym a lleihau unrhyw risg ychwanegol i wasanaethau wrth symud adnoddau.

Gobeithio bod yr eglurhad yn fy llythyr yn rhoi sicrwydd ychwanegol i chi nad oedd fy llythyr blaenorol yn awgrymu adolygiad mwy cyfyng.

Yn gywir

Dr Andrew Goodall